



UNDEB BEDYDDWYR CYMRU
AWR DUW YN GALW

Annwyl ffrindiau,
Yn y cyfnod argyfyngus hwn, 'rydym i gyd yn ceisio ymgodymu â'r normal newydd. Mae llwybr ein bywydau dyddiol ar drywydd gwahanol a'n gorwelion wedi'u cyfyngu i nifer fechan o faterion angenrheidiol bywyd, meddyginiaeth ac ymarfer, – yn agos iawn i'n cartrefi.

Mae yr Undeb eleni wedi'i ohirio ac felly nid oedd yn bosib eich croesawu i Gymanfa Gorllewin Morgannwg, yn arbennig ardaloedd Treforys a Phontliw. Pan fydd yn bosib cyfarfod fel Pwyllgor Trefnu unwaith eto, byddwn yn parhau â'n trefniadau ar gyfer 2021. Y dyddiadau yw Mehefin 20, 21 a 22, sef prynhawn Sul, dydd Llun a dydd Mawrth. Mawr obeithiwn y bydd yn bosib cynnig yr un rhaglen a'r un siaradwyr ag a drefnwyd eleni.

I orffen, hoffwn eich cyfeirio at thema'r Undeb, "Awr Duw yn galw." Er nad yw'n bosib i ni gyfarfod eleni, mae gennym gyfrifoldebau tuag at ein gilydd. Mae awr Duw yn ein galw ni yn ein cartrefi i weddio dros ein hanwyliaid a'r ddynoliaeth yn gyffredinol, ac i fod yn gariadus tuag at bawb.

Pob bendith.
Aldyth Williams,
ar ran Cymanfa Gorllewin Morgannwg.

Gan nad oedd yn bosib cynnal Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb eleni, paratowyd y cerdyn gweddi, 'Awr Duw yn Galw' gan yr is-lywydd, Miss Aldyth Williams. Derbyniodd pob Gweinidog ac Ysgrifennydd Eglwys gopi o'r cerdyn. Pe baech yn dymuno derbyn cerdyn, rhowch wybod inni yn y swyddfa. Mawr obeithir y bu'r cyfarchion yn ffynhonnell o anogaeth a bendith.

Gweddi,
Ein Tad,

Y mae'r amseroedd yn anodd ac mae pobl yn ofnus. Er ein holl addysg a'n gwybodaeth wyddonol, 'rydym yn wynebu gelyn nad ydym yn ei ddeall nac yn medru ei orchfygu eto. Cyflwynwn i'th sylw bawb yn y gwasanaethau iechyd a gofal sydd yn edrych ar ôl y cleifion, y gwyddonwyr sydd yn ceisio'r feddyginiaeth fydd yn gwella a phawb sydd yn cadw olwynion cymdeithas i droi.

Prif nodwedd ein bywydau ar y foment yw pellter – pellter o bopeth a phob un sydd yn gyfarwydd i ni. Diolchwn am bob dyfais dechnegol sydd yn ein cysylltu â'n gilydd ond edrychwn ymlaen yn amyneddgar at y dydd pan fyddwn yn medru cyfarfod â phawb wyneb yn wyneb – ein teuluoedd a'n ffrindiau mynwesol, ein cyd-Gristnogion mewn oedfa, cwrdd gweddi, pwyllgor a chynhadledd. Yn y sefyllfa yma yr wyt Ti, ein Tad, yn agos atom, "wrth law o hyd i wrando cri." Pwyswn ar dy gariad a'th nerth i'n cefnogi. Mae'r llwybr o'n blaenau yn annelwig a'r canlyniad efallai yn y fantol. Yr unig sicrwydd yw Dy fod yn cerdded pob cam o'r daith gyda ni ac ymddiriedwn yn y gobaith a'r iachawdwriaeth a ddaw o'th ddilyn Di. *Amen.*

**CYFARFOD
BLYNYDDOL UNDEB
BEDYDDWYR
CYMRU 2020**

Cynhelir y Cyfarfod
Blynyddol eleni trwy gyfrwng
fideo gynadledda Zoom

ar nos Fawrth,
13eg Hydref 2020 am 7.00 yh

CROESO CYNNES

I BAWB

Bydd manylion am y
cyfarfod yn cael eu
dosbarthu yn ystod
mis Medi

Gweddi Dros Gymru 2020

UNDEB Bedyddwyr Cymru

Fel rhan o Flwyddyn o Weddi Undeb Bedyddwyr Cymru bydd criw ohonom o wahanol eglwysi dros Gymru yn dod at ein gilydd ar Zoom i weddio dros ein gwlad ac mae croeso i chi ymuno â ni.

Nos Fawrth 23 Mehefin 7-8pm

GWEDDI DROS GYMRU (Argraffiadau o'r Cyfarfod Gweddi o dan arweiniad Derek Rees, Isaias Grandis a Rhun Murphy, gan Arwel E Jones - rhywun oedd ddim isio bod yno!)

Weithiau, os 'da ni'n onest, 'da ni'n gwneud pethau yn ein bywydau ysbrydol allan o ddyletswydd pur yn hytrach na chariad na brwdfrydedd a dyna oedd fy hanes ar nos Fawrth 23 Mehefin. Roedd ein cyfarfod grŵp canol wythnos yng Nghaersalem wedi'i ohirio gan bod Cyfarfod Gweddi ar-lein wedi'i drefnu gan Undeb Bedyddwyr Cymru ac roedd yn rhaid ymuno! Doedd dim llawer o hwyl ac felly, gyda dim egni a heb lawer o ddisgwyliad, dyma ni yn logio ymlaen – Wel, rhag fy nghywilydd!! Cawsom fendith ryfeddol am sawl rheswm.

I ddechrau, roedd yn braf gweld rhai wynebau cyfarwydd ar adeg pan 'da ni i gyd yn gorfod ymddieithrio. Ond, â phob parch i ffrindiau oedd ar y we y noson honno, roedd yn well fyth gweld wynebau newydd! Rydym yn dueddol o feddwl yn y Gymru Gristnogol fach 'da ni yn byw ynddi ein bod, os nad yn perthyn i bawb, o leiaf yn 'nabod pawb ac yn gwybod i bwy y mae nhw yn perthyn! Diolch i Dduw bod ei feddwl a'i gynlluniau Ef yn fwy ac yn ehangach na'n rhai ni a'i fod yn gweithio ar draws ein gwlad ymysg pobl nad ydym yn ei 'nabod eto. Gwych!

Yn ail, cawsom gydaddoli ac mae hynny'n beth rhyfedd i'w ddweud ar adeg pan nad ydym yn cael cydgyfarfod yn yr un lle! Roedd cael bod yn rhan o addoliad yn cael ei arwain o Gaerfyrddin, Abertawe a

Chaernarfon yn fraint ac roedd ymdeimlad gwirioneddol o gydaddoli – beth bynnag am y pellter daearyddol. Roedd y cyfan yn dod â ni i hyfrydwch presenoldeb Tad Nefol sydd yn croesawu ei blant gyda'r fath ras a thosturi. Roedd ysbryd yr addoliad yn hyfryd a'i gwmmi Ef yn hyfrytach.

Yn drydydd, y gweddio. Cawsom ein harwain i feddwl a gweddio am feysydd a phynciau amrywiol, o ieuentid ein gwlad i'r bobl mwyaf bregus, o ddyfodol ein heglwysi amrywiol a natur ein cenhadaeth i fyd sydd wir angen clywed am "obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw". Cydweddio eto – ie dyna'r gair bach "cyd" yna yn dod i'r amlwg eto. Os nad yw pyrth uffern am orchfygu'r eglwys, pa obaith sydd gan ychydig o filltiroedd o bellter a chyswllt we gwael!!! Pobl Dduw yn cydgyfarfod, yn cyd-ddysgu, yn cyd-addoli ac yn cyd-weddio.

Bydd rhai yn gofyn pa wahaniaeth y mae gweddio yn ei wneud ond mae'r Beibl yn gwneud dau beth yn eglur iawn. Yn gyntaf, mae ein Harglwydd am i ni weddio - "Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddïwch, a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen, a byddwch yn ddiolchgar bob amser," er nad yw pob ateb i weddio yr union beth y byddem yn dymuno ei glywed.

Yn ail, mae gweddio yn ein newid ni. Sut allwn ddod i bresenoldeb Arglwydd a roddodd ei fywyd drosom heb Iddo Ef ein newid ni? A newid sydd raid, yn awr a hefyd pryd bynnag y cawn ddod i ryw fath o normalrwydd newydd. Mae'n siwr y bydd angen i ni fel pobl Dduw

wneud rhai pethau yn wahanol a chawn weld, dros amser, beth fydd hynny'n ei olygu yn ymarferol. Ond y newid mwyaf pwysig fydd, os ydym fel pobl yn caniatâu Iddo Ef ein newid ni i fod yn bobl sydd yn ildio Iddo, yn ei wir wasanaethu ac yn gweithredu ar ei ran mewn gwlad a chymunedau toredig ac anghenus – Wel, dyna rywbeth i weddio amdano, pan ydym mewn hwyl a phan mae'r cyfan yn teimlo fel dyletswydd hefyd!

*Arwel E Jones,
Caersalem Caernarfon*

GWEDDI DROS GYMRU— GAIR O DDIOLCH

Pan alwodd yr Undeb ni i flwyddyn o weddio ar ddechrau 2020 doedd neb yn gwybod bod ein bywydau ar fin newid yn sylweddol. Mae'r cyfnod clo wedi bod yn un rhyfedd iawn i bawb ac mae wedi bod yn rhyfedd ofnadwy wrth i ni chwilio am ffyrdd amgen o gymdeithasu.

Rydym wedi bod yn gaeth i'n tai ac mae drysau ein haddoldai wedi bod ar gau ond mae'n dal i fod yn flwyddyn o weddio. Ar Nos Fawrth 23 o Fehefin fe drefnon ni noson i weddio dros Gymru. Fe ddaeth llawer o bobl ar draws Cymru i gyd at ei gilydd mewn cyfarfod Zoom enfawr i addoli a gweddio gyda'i gilydd. Roedd yn noson braf ac roedd gweld pobl o bob cwr o Gymru yn gweddio, yn teimlo yn arwyddocaol iawn.

Cawsom ein harwain mewn addoliad gan Gapel Gomer Abertawe, Penuel Caerfyrddin a Chaersalem Caernarfon. Isaias Grandis wnaeth rannu defosiwn gyda ni gan esbonio faint o fudd a gafodd o'r sesiynau *Forge* gyda Cam Roxborough, cyn i Rhun Murphy ein harwain mewn gweddio dros Gymru. Fe weddion ni dros ein heglwysi, dros ein plant, dros y rhai hynny sydd yn unig a thros y rhai hynny sydd eto i brofi cariad Iesu Grist.

Diolch i bawb a wnaeth fynychu'r cyfarfod ac a gymerodd ran. A diolch i Simeon Baker ac Aron Treharne am sortio'r ochr dechnolegol sydd yn ormod i mi! Fe ges i anogaeth a bendith enfawr o fod yn rhan o'r noson ac rydym yn gobeithio cynnal un arall cyn bo hir yn Gymraeg, ac yn gyffrous i weld bod un Saesneg ar fin digwydd hefyd.

Parchg Derek Rees, Abertawe

'NÔL I NORMALRWYDD?

I lawer mae wedi bod yn amser hir cyn gallu addoli unwaith eto yn y Capel. I rai nid yw hynny yn gallu dod yn ddigon cyflym ond i eraill mae pryderon dealladwy ynghylch ailgychwyn yn ddiogel, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

Sut bynnag y teimlwch, un peth sy'n sicr o fod yn wir yw na fydd pethau'n mynd yn ôl i'r arferol am beth amser. I rai o'n capeli, bydd nifer y lleoedd sydd ar gael yn cyfyngu ar y niferoedd sy'n gallu mynychu; gwyddom na chaniateir canu ar hyn o bryd; bydd ymbellhau cymdeithasol yn cyfyngu ar gyfleoedd i gael cymdeithas a sgwrs. Efallai y bydd y profiad o fynychu'r capel ar ddydd Sul yn teimlo'n debycach i'r ystafell aros yn y deintydd na'r cyfarfodydd cyfeillgar cyfarwydd? A ellir glanweithio a diheintio'r addoliad?

Wrth gwrs mae'r awydd i 'fynd yn ôl i'r arferol' yn ymateb hollol naturiol. Mae cysur yn y cyfarwydd. Yn union fel ein hoff gadair freichiau y buom yn eistedd ynddi ers blynnydoedd, cafodd ei mowldio yn gywir i'r ffordd yr ydym yn ei hoffi! Ond mae'n

werth gofyn y cwestiwn, a oedd y ffordd yr oeddem yn addoli gyda'n gilydd yn gweithio cystal â hynny beth bynnag? Efallai fod hynny wedi bod yn gyfforddus i mi a'm hanghenion, ond a oedd yn addas i'r rhai nad oeddent yn mynychu'r oedfaon?

Yn ystod y cyfnod hwn, canfu nifer o eglwysi bod y profiad o gael eu gorfodi allan o'r adeilad wedi'u dwyn i gyswllt â llawer mwy o bobl. Mae pobl na fyddai byth yn mynychu'r capel ar y Sul wedi dod o hyd i le diogel i ymuno yn y gwasanaeth. Yn sydyn mae'r Eglwys wedi dod yn fwy cynhwysol a hygyrch ar gyfer y rhai sy'n gaeth i'r tŷ neu sydd ag anabledau. Mae teuluoedd sy'n gweithio ac sydd â phob math o ymrwymadau ar y Sul wedi cael hi'n haws eistedd i lawr fel teulu ac addoli gyda'i gilydd. Mae'r cysylltiadau ehangach y gweddiwyd amdanynt cyn y cyfnod clo bellach yn bosibl.

Ymhell cyn y pandemig Covid-19, bu llawer ohonom yn ein heglwysi yn byw yn ein swigen Gristnogol

ddiogel, gyfforddus. Efallai ei bod hi'n amser i dorri'r swigen a mynd ati i rannu bywyd trawsnewidiol Iesu gyda'n cymdogion a'n ffrindiau. Efallai nad ydym eto'n gwybod sut olwg fydd ar y 'normal newydd', ond cyn i ni ruthro 'nôl i'n hadeilad, efallai ei bod hi'n werth gofyn y cwestiwn, a oes unrhyw beth y mae angen i ni fynd gyda ni wrth i ni ailddysgu sut i fod yn Eglwys.

I'w hystyried:

1. Pe byddai'n rhaid i ni wynebu hyn i gyd eto beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol? Sut fydddech yn paratoi'r Eglwys i wireddu eu ffydd Gristnogol mewn cyfnod clo?
2. A fyddwch yn parhau i gynnig rhyw fath o ddeunydd ar-lein er mwyn cyrraedd y rhai na fydd, neu na all ddod i adeilad ar y Sul?
3. A allech chi weithio gydag eglwysi eraill i rannu'r gwaith ychwanegol hwnnw ac i gronni eich adnoddau creadigol?
4. Sut ydych yn mynegi eich ffydd Gristnogol yn y stryd lle rydych yn byw?

*Parchedig Simeon Baker
Cyfarwyddwr Cenhadaeth*

Pecyn Gweddïau Diolchgarwch

BLWYDDYN O
WEDDI
2020



'Arglwydd, dysg i ni weddiö'

Pan aethpwyd ati i lansio'r flwyddyn weddi UBC, pwy fyddai wedi dychmygu y byddai'r flwyddyn 2020 yn cymryd y fath lwybr. Heb os nac oni bai, fe fydd 2020 yn cael ei chofio fel un o flynyddoedd mwyaf anodd a heriol yr unfed ganrif ar hugain, blwyddyn y Clo Mawr a gaeodd ddrysau capeli ac eglwysi Cymru mewn modd na welwyd mo'i debyg.

Serch hynny, er gwaetha'r cyfyngiadau ar gyfarfod a chydaddoli, nid oedd cyfyngiad ar

weddi. Drwy gydol y flwyddyn mae gweddi daer a ffyddlon wedi parhau ac mae wedi bod yn galonddid ac anogaeth i glywed am ymdrechion eglwysi i gynnal cyfarfodydd gweddi ar lein a thros y ffôn.

Fel rhan o'r ymgyrch, mae'r Undeb wedi bod yn cyhoeddi a dosbarthu cyfres o becynnau gweddi sy'n cynnwys adnoddau ac awgrymiadau i annog cynulleidfaoedd i weddiö. Ar hyn o bryd, rydym yn paratoi pecyn olaf y gyfres, 'Gweddïau Diolchgarwch' a fydd yn cynnwys adnoddau a deunyddiau i'w defnyddio yn ystod tymor y cynhaeaf.

Bydd y pecyn, a fydd yn cael ei ddosbarthu ddechrau Medi, yn cynnwys cyfres o fyfyrddau tymhorol a gweddïau perthnasol. Bydd y pecyn hwn hefyd yn cynnwys adran arbennig a fydd yn ystyried ymateb rhai o weinidogion, eglwysi a chymanfaoedd UBC i heriau'r

flwyddyn gyda cheisiadau a phwyntiau gweddi.

Mawr obeithir y bydd y pecyn olaf hwn o gymorth wrth inni barhau i geisio'r Arglwydd fel un teulu ar draws Cymru yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bob un sydd wedi cyfrannu at y gyfres o becynnau a phawb sydd wedi ymuno â ni yn yr ymdrech i neilltuo'r flwyddyn yn flwyddyn o ymbil, eiriol, a cheisio Duw o'r newydd.

Wrth inni barhau i weddiö, hoffem glywed sut y bu gweddi yn flaenoriaeth i chi a'ch eglwys yn ystod y flwyddyn hon. Os oes gennych stori yr hoffech ei rhannu gyda ni, byddem yn falch o glywed gennych, trwy e-bost simeon@ubc.cymru.

"Ceisiwch yr ARLWYDD tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos."
Eseia 55:6

*Dr Christian Williams,
Swyddog Prosiectau*

AILAGOR EIN CAPELI



Ar 10 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai modd ailagor ein capeli pan oedd yn ddiogel gwneud hynny ac fe baratowyd canllawiau ganddynt i'r diben hwn. Erbyn hyn mae'r Undeb wedi paratoi dogfen sy'n cynnwys rhai o brif agweddau yr hyn sydd yn rhaid ei ystyried wrth baratoi i ailagor y capel. Dosbarthwyd y manylion i bob Ysgrifennydd Eglwys a Gweinidog ar ddiwedd Gorffennaf.

Fel Undeb, rydym wedi annog ein heglwysi i beidio â rhuthro i ailagor ond i gymryd amser i ystyried y gofynion yn llawn ac i anelu, o bosib, at ailagor ym mis Medi.

Cyn agor y capel dylid gwneud **asesiad risg trwyadl** er mwyn

lleihau y perygl o ledaenu'r feirws. Bydd angen sicrhau **pellter cymdeithasol** a **glanweithdra** priodol. Dylid darllen canllawiau'r Llywodraeth a gellir sicrhau cyngor pellach oddi wrth eich cwmni yswiriant.

Byddwch yn realistig am yr hyn a ellir ei gyflawni a pheidiwch ag anghofio am y rhai a fydd yn parhau i hunan-ynysu ac yn methu â mynychu oedfaon yn y capel. Efallai y bydd modd ichi barhau â'r dulliau amgen am beth amser eto.

Mae'r dolenni canlynol yn darparu'r cyngor perthnasol ac fe fyddant hefyd yn eich arwain at ddogfennau ychwanegol y dylid cyfeirio atynt:

Llywodraeth Cymru: Canllawiau ar gyfer ailagor manau addoli:
coronafeirws: [llyw.cymru/canllawiau-ar-ailagor-mannau-addoli-coronafeirws-html](https://www.gov.uk/government/collections/covid-19-guidance-for-churches)

Covid-19
Coronafeirws
Coronavirus

CADWCH DRAW ER MWYN
ACHUB BYWYDAU

2 fetr
2 metres

KEEP YOUR DISTANCE
SAVE LIVES

<https://www.ecclesiastical.com/latest-news/opening-places-of-worship-after-lockdown/>

<https://www.ecclesiastical.com/church/coronavirus/>

Llinell Gymorth Risg Cwmni Ecclesiastical: 0345 600 7531

(Gwnewch yn siŵr bod eich rhif polisi wrth law).

(Os nad ydych wedi yswirio gydag Ecclesiastical cysylltwch â'ch Cwmni Yswiriant a fydd yn medru darparu'r cyngor priodol).

*Parchg Judith Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol UBC*

COVID - 19
MESURAU AMDDIFFYNNOL
PROTECTIVE MEASURES

<p>GOLCHWCH EICH DWYLO</p> <p>WASH YOUR HANDS</p> <p>Defnyddiwch y diheintydd neu golchwch eich dwylo wrth ddod i mewn i'r capel. Use sanitiser or wash your hands as you enter the chapel.</p>	<p>CADWCH EICH PELLTER</p> <p>KEEP YOUR DISTANCE</p> <p>Cadwch eich pellter trwy aros 2 fetr ar wahân. Practise social distancing by keeping 2 metres apart.</p>
<p>PESWCH NEU THISIAN</p> <p>COUGH AND SNEEZE</p> <p>Cofiwch beswch neu thisian i fewn i'ch penelin neu hances bapur. Remember to cough and sneeze into your elbow or a tissue.</p>	<p>ARHOSWCH GARTREF OS YDYCH YN DOST</p> <p>STAY AT HOME IF YOU ARE ILL</p> <p>Os ydych yn dioddef un o symptomau Covid-19 arhowsch gartref. If you suffer from one of the Covid-19 symptoms stay home.</p>

Flynhoneil: World Health Organisation

